

Stori Tylwyth teg ym Maldwyn

Mae ein stori yn dechrau yn Llanrhaeadr o dan y pistyll enwog gannoedd o filoedd o flynyddoedd yn ôl...

Deffrodd Dewi i sŵn yr adar yn trydar yn y coed llawn ffrwythau oedd yn edrych fel roedd yn sgleinio yn hudolus. Cododd Dewi gan ystwytho ei freichiau, coesau a'i adenydd mawr a chryf. Cerddodd allan o'i siambr gyda thylwythen fach yn ei gyfarch ac yn ei dywys at yr ystafell fwyta.

Eisteddodd Dewi ac hedfanodd cannoedd o gigoedd a bwydydd blasus eraill ato a bwyaodd y cwbl mewn tri llwnc. Ar ôl y chweched pryd, cododd Dewi gan daro cwpl o gorachod hefo'i gynffon enfawr.

Dringodd brenin Cymru gyfan y grisiau craig troellog i ben y rhaeadr cyn rhuo ton o dân i'r awyr cyn hedfan dros ei hoff ddarn o Gymru, Maldwyn.

Roedd Dewi y Ddraig yn goch fel tân hefo pedair coes cryf, cynffon hir bywiog fel neidr a llygaid du, milain. Roedd Dewi yn hapus ei fyd ond roedd ganddo un problem, Y Saeson.

Roedd Llew yn frenin ar Loegr, hefo'i wallt gwyn fel cymylau a'i goesau mor gryf â rhai Dewi, yn ogystal â'i ddannedd gwyn miniog. Hyn oedd unig broblem Dewi, ond roedd yn broblem fawr.

Doedd Dewi ddim eisiau ymladd felly ehedodd tuag at Lundain i gael gair hefo'r llew enfawr.

Ugain munud yn ddiweddarach cyrhaeddodd Dewi y castell prydfarth yn Ne Lloegr a cherddodd tuag at lle roedd y Llew yn cerdded hefo'i dylwyth ei hun. Cyfarchodd Dewi y Llew gyda gwên finiog.

“Mi o'n i'n gobeithio y gallen ni fod yn ffrindiau” meddai Dewi.

“Mi oeddwn i'n meddwl yr un peth” meddai'r Llew. “Gallen ni weithio hefo'r Alban ac lwerddon i greu tim er mwyn cadw ein gwledydd yn saff.”

“Ond beth ddylen ni ei alw?” meddai Dewi. “Beth am Brydain? Dyna enw fy Nghastell.”

“Gwych” cytunodd y Llew.

A dyna sut gafodd Prydain ei greu, a chychwynodd ym Maldwyn!